



# Rheilfforddd Canolog Môn Cyf (Lein Amlwch)
# Anglesey Central Railway Ltd (Lein Amlwch)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Menter a Busnes
Dyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Annwyl Gyfeillion,
Gai yn gyntaf ymddiheuro am ein ymateb hwyr i'ch llythyr ynglyn a Ymchwiliad i Fasnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

Rwy'n credu fod walter Glyn wedi bod mewn cysylltiad ffôn gyda Mr David Beer (Passengerfocus) ynglyna'r mater uchod, ac y mae wedi gofyn i mi roi ymateb ysgrifenedig yr wyf yn credu sy'n cynrychioli barn y Cwmni.

Yr ydym yn credu fod unrhyw uwchraddio o'r gwasanaeth Trennau yng Nghymru yn cael ein cefnogaeth llawn, yn enwedig gan fod traffig wedi cynyddu ar ein ffyrdd, ac fe ellith gwasanaeth trennau gwell helpu at leddfu y broblem ac helpu'r amgylchedd.

Mi fuasem yn cefnogi unrhyw ail-agor hen linnellau sydd wedi eu cau ers blynyddoedd gan y byddai hyn o help i ehangu'r rhwydwaith yng Nghymru a rhoi cymorth angenrheidiol yn economaidd i'r ardaloedd hynny.

Mi rydani yn gweithredu yn uniongyrchol ac yn ymgyrchu dros ail agor Lein Amlwch – sef yr hen Rheilffordd Canolog Môn sy'n rhedeg o Amlwch i Gaerwen. Mae'r cynulliad wedi gwyntyllu y buasant yn ymchwilio i ail agor y lein o Langefni, ac eisioes wedi gwneud gwaith ar y lein gyda'r bwriad i ail agor y darn yma i Gaerwen ac ymlaen i Fangor gan y buasai hyn yn helpu lleddfu'r broblem o dagfeydd Traffig ar y pontydd o Fôn i Arfon.
Mi rydani yn cefnogi hyn ond yn pwysleisio y buasai agor y lein i gyd o fudd i'r Ynys gyfan, nid yn unig i leddfu problem traffig drwy gael mwy i ddefnyddio'r rheilffordd ond drwy helpu cymunedau fel Llangefni, Llannerchymedd ac Amlwch sydd wedi dioddef gyda diweithdra a diffyg buddsoddi mewn gwaith a syniadau newydd i hybu gwaith ym Môn.

Mae son fod yna fwriad i agor Parc Gwyddoniaeth yn ardal Gaerwen. Oni buasai y rheilffordd o fudd mawr i'r Parc hwn gan roi ffordd amgenach i gludo gweithwyr i'w gwaith?

Rwyn gobeithio bod ein safbwynt o ddiddordeb i'r Pwyllgor Menter a Busnes a gobeithio y byddant yn gwerthfawrogi ein barn a'n syniadau ar adfywio canolbarth Môn drwy ail agor Lein Amlwch. Rheilffordd i ddyfodol Môn!

Yn Gywir

Ifor Wyn Humphreys
(Cyfarwyddwr ar ran Rheilffordd Canolog Môn)